Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Porthmadog
# Festri St Ioan
# Ffordd Penamser
# Porthmadog
# Gwynedd
# LL49 9PA

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/06/2014**

## Cyd-destun

Sefydlwyd y cylch ym 1986 i gynnig addysg feithrin cyfrwng Cymraeg i blant Porthmadog a'r cyffiniau. Ar hyn o bryd, mae 20 o blant tair oed yn mynychu'r cylch ac mae 18 yn cael eu hariannu gan Awdurdod Addysg Lleol Gwynedd. Cynhelir sesiynau o ddwy awr a hanner am bum bore'r wythnos ond nid yw pob plentyn yn dewis mynychu'r holl sesiynau. Caiff y cylch ei staffio gan arweinydd a dau aelod staff arall yn amser llawn ac un yn rhan amser.

Daw'r plant i'r cylch ar ôl iddyn gyrraedd dyflwydd a hanner. Bydd y mwyafrif helaeth ohonynt yn trosglwyddo i'r ysgol gynradd leol yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed.

Y Gymraeg yw iaith y cartref i oddeutu hanner y plant tair oed gyda nifer dda o'r gweddill gydag un rhiant yn siarad Cymraeg.

Daw plant o bob gallu a chefndir cymdeithasol ac ieithyddol i'r cylch. Ychydig iawn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac maent yn derbyn cynhaliaeth un-i-un gan gymhorthydd dysgu. Ar hyn o bryd, mae ychydig iawn o blant o dras lleiafrif ethnig yn mynychu'r Cylch.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yng Ngorffennaf 2013 a chan Estyn yng Ngorffennaf 2008.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Cylch Meithrin Porthmadog yn dda oherwydd bod:

- bron pob plentyn yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu;
- rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn y cylch;
- medrau siarad a gwrando'r plant yn datblygu'n dda;
- llawer yn canolbwyntio ar dasg yn llwyddiannus iawn;
- ymddygiad bron pob plentyn yn dda;
- y cylch yn cynnig ystod o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb y plant yn effeithiol; a bod y
- staff yn sicrhau yn llwyddiannus bod plant yn dyfalbarhau ac yn aros ar dasg, gyda llawer yn gwneud hynny am gyfnod estynedig.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- gan y lleoliad hanes da o roi newid ar waith, sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles plant;
- arweinwyr yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol a bod ffocws effeithiol ar ddatblygu llythrennedd a rhifedd;
- agwedd gadarnhaol a gweithredol gan y staff tuag at ddatblygiad a hyfforddiant;
- gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol; a'i
- bod yn gwneud defnydd rheolaidd o gymorth allanol.

Serch hynny:

- nid yw'r arweinyddiaeth wedi ei rhannu yn ddigon effeithiol;
- nid yw rôl y pwyllgor rheoli o ddwyn yr arweinydd i gyfrif am safonau a darpariaeth wedi datblygu'n ddigon effeithiol; ac
- mae'r broses hunanarfarnu yn gymharol newydd ac nid yw wedi adnabod y meysydd i'w datblygu yn ddigon trwyadl.

## Argymhellion

A1 Datblygu medrau datrys problemau y plant, yn arbennig y plant mwyaf galluog

A2 Gwella'r cynllunio trwy gynnwys pob ymarferydd yn y broses a sicrhau bod y tasgau ffocws yn glir ac wedi eu datblygu'n drylwyr

A3 Cryfhau'r broses asesu trwy gynnwys yr holl staff, a defnyddio'r wybodaeth a gesglir i fwydo'r cynllunio er mwyn symud y plant ymlaen

A4 Sicrhau defnydd cyson o'r ardal tu allan er mwyn sicrhau cyfleoedd addas i'r plant i ddatblygu'n gorfforol ac i gyfoethogi eu profiadau

A5 Datblygu rôl strategol y pwyllgor rheoli fel eu bod yn hollol ymwybodol o'u dyletswyddau

A6 Sicrhau bod y broses hunanarfarnu yn fwy cynhwysol ac yn adnabod yr agweddau i'w gwella yn fwy trwyadl

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn y cylch, mae rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu agweddau positif at ddysgu.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau iaith sy'n berthnasol i'w hoed a'u cefndir. Mae bron pob un yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau ac yn ymateb iddynt yn llwyddiannus. Maent yn siarad yn hoffus am y gweithgareddau gan ddefnyddio geirfa bwrpasol. Mae llawer yn mwynhau ac yn awyddus i wrando ar storïau gan ymateb yn dda i holi'r ymarferydd. Maent yn cael hwyl wrth ganu ac ymuno yn y symudiadau sy'n gysylltiedig â'r caneuon. Mae llawer yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol drwy wneud marciau ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o ddiben ysgrifennu. Mae'r ychydig sy'n cyrraedd y cylch heb unrhyw Gymraeg na Saesneg yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau iaith.

Mae llawer o blant yn datblygu dealltwriaeth dda o rifau gan gyfrif, adnabod ac enwi rhifau i bump yn hyderus ac ambell un yn cyfrif hyd at 12. Mae llawer yn defnyddio ystod bwrpasol o iaith fathemategol gyda'i gilydd wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn disgrifio teganau a gwrthrychau fel 'bach', 'canolig' a 'mawr' wrth ymateb i gynnwys stori. Mae bron pob un yn medru grwpio gwrthrychau o wahanol fathau yn ôl lliw, maint a siâp yn gywir.

O fewn cyfyngderau lleoliad y cylch, mae llawer o blant yn datblygu medrau corfforol megis defnyddio offer bach fel brwsys paent a siswrn yn llwyddiannus gan ddangos rheolaeth dda. Mae medrau dysgu annibynnol a medrau meddwl y plant o ran dewis gweithgareddau a chanolbwyntio ar dasg wedi datblygu'n llwyddiannus iawn. Nid yw medrau'r plant, yn arbennig y rhai mwy abl, i ddatrys problemau wedi datblygu'n effeithiol eto.

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn ymgartrefu'n gyflym. Maent yn setlo i drefn sefydledig y cylch yn dda. Mae'r bron pob un yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Maent yn dyfalbarhau am gryn amser ar dasgau, fel rhwygo a gludo papur a chwblhau jig-sos.

Mae ymddygiad bron pob plentyn yn dda iawn ac maent yn gwrtais i'w gilydd ac i oedolion. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cydweithio'n dda a dangos ystyriaeth am deimladau ei gilydd, yn aml heb gymorth oedolyn. Mae pob plentyn yn helpu i dacluso pan ofynnir iddynt ac maent yn defnyddio offer yn ofalus.

Yn ystod amser byrbryd, mae rhan fwyaf o'r plant yn arddangos medrau cymdeithasol da. Maent yn dweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' ac maent yn ymwybodol o'r angen am hylendid personol da.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dewis gweithgareddau chwarae yn hyderus ac yn canolbwyntio'n dda ar dasg am gyfnodau estynedig.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae ymarferwyr yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen yn dda, gan gynllunio'n briodol er mwyn sicrhau bod y plant yn derbyn profiadau pwrpasol o fewn y chwe maes dysgu. Serch hynny, nid yw'r cynllunio yn ddigon trylwyr gan nad yw'n nodi pa ddarpariaeth sy'n barhaus, wedi ei chyfoethogi, nac ychwaith beth yw'r gweithgaredd ffocws. O ganlyniad, nid yw'r plant mwy abl yn arbennig yn cael eu hymestyn yn ddigonol.

Ar lawr y cylch, mae'r gweithgareddau yn ennyn diddordeb y plant yn dda. Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r plant feithrin ac ymarfer eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus. Mae llawer o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau meddwl drwy weithgareddau diddorol megis cymysgu paent a chyfrannu at furlun. Serch hynny, nid yw'r plant yn cael digon o gyfleoedd i ddatrys problemau nac i brofi gweithgareddau parhaus yn yr ardal tu allan.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu ac yn derbyn cyfleoedd rheolaidd i wneud dewisiadau am yr hyn y byddent yn hoffi ei wneud. Mae hyn yn datblygu hyder ac annibyniaeth gynyddol yn llwyddiannus yn y rhan fwyaf o blant.

Mae darpariaeth effeithiol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth plant o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru, er enghraifft trwy ddathlu Gŵyl Ddewi a diwrnod Santes Dwynwen.

Nid yw'r lleoliad yn gwneud digon o ddefnydd o ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant ac mae'r cyfleoedd i blant ddysgu am bwysigrwydd ailgylchu yn brin.

**Addysgu: Digonol**

Mae ystod ac ansawdd y dulliau addysgu'n effeithiol. Gwneir defnydd cyson o holi pwrpasol er mwyn ennyn chwilfrydedd naturiol y plant. Mae'r ymarferwyr yn arwain y dysgu a rheoli grwpiau yn effeithiol iawn gan sicrhau bod y plant yn glir am yr hyn a ddisgwylid oddi wrthynt, er enghraifft y sesiynau rolio a thorri toes, peintio a rhwygo a gludo. Mae'r staff yn llwyddiannus yn sicrhau bod plant yn dyfalbarhau ac yn aros ar dasg, gyda llawer yn gwneud hynny am gyfnodau estynedig. Mae hyn yn gryfder amlwg yng nghwaith y cylch.

Gwneir defnydd pwrpasol o'r adnoddau newydd, er mwyn ysgogi'r plant a datblygu eu medrau. Mae'r staff yn rheoli ymddygiad y plant yn fedrus iawn ac yn ymyrryd yn fwriadus i gefnogi'r plant y rhan fwyaf o'r amser. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardaloedd chwarae rôl megis y siop a'r gegin i gymell y plant i ddatblygu medrau iaith a rhifedd a gwneud penderfyniadau.

Mae'r cylch wedi mabwysiadu gweithdrefnau asesu diwygiedig yr awdurdod lleol yn ddiweddar. Mae hyn yn golygu asesu pob plentyn ar fynediad ac yna gwneud arsylwadau dyddiol i'w cynnwys yn y cofnodion cynnydd yn y chwe maes dysgu. Fodd bynnag, nid yw hyn eto wedi cael amser i wreiddio na chael effaith gadarnhaol ar safonau. Er bod staff yn adnabod y plant yn dda nid oes gweithdrefnau digon ffurfiol yn bodoli i rannu gwybodaeth am blant ymhlith ymarferwyr. Ar hyn o bryd mae'r broses yn orddibynnol ar yr arweinydd ac ni roddir digon o sylw i strategaethau er mwyn symud y plant ymlaen.

Mae'r wybodaeth i rieni ar ddiwedd y flwyddyn yn cyfleu datblygiadau'r plant ar draws meysydd y Cyfnod Sylfaen yn briodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu'n effeithiol ar gyfer sicrhau iechyd, lles, datblygiad moesol, ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn eu gofal. Mae'r staff yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn gyson trwy weithgareddau bob dydd. Maent yn annog y plant ar bob achlysur i hyrwyddo eu hunan-barch a'u hyder a chymryd eu tro. Mae amser byrbryd yn achlysur cymdeithasol, lle caiff y plant gyfle i sgwrsio gyda'i gilydd. Mae'r staff yn darparu anogaeth effeithiol er mwyn i blant gymryd cyfrifoldeb i weini'r byrbrydau amrywiol. Serch hynny, ni roddir digon o gyfleoedd i blant werthfawrogi pwysigrwydd cynaliadwyedd.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Cymerir gofal da pan fydd plant yn cyrraedd ac yn cael eu casglu.

Mae prosesau cadarn ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant yn sicrhau bod ymarferwyr yn adnabod anghenion penodol unigolion yn gynnar a thrafod eu pryderon gyda'r asiantaethau priodol. O ganlyniad, cynllunnir yn briodol er mwyn cwrdd ag anghenion penodol y plant, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag ymddygiad.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r lleoliad yn darparu ethos cynhwysol ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael ei barchu fel unigolyn. Caiff y plant eu trin yn gyfartal a hyrwyddir chwarae teg yn effeithiol.

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â chymwysterau priodol i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae digon o adnoddau addas o fewn y lleoliad er mwyn ateb gofynion y chwe maes dysgu. Er bod cyfyngderau ar yr hyn mae'n bosibl ei wneud y tu fewn a thu allan i'r adeilad, gwneir defnydd da o'r hyn sy'n bosibl er mwyn sbarduno'r plant. Mae arddangosfeydd lliwgar a deniadol, sy'n dathlu gwaith y plant, ac amgylchedd ddiddorol i'r plant er mwyn iddynt chwarae'n ddychmygus, er enghraifft yn y siop a'r gegin.

Serch hynny, nid yw'r lleoliad yn medru sicrhau cyfleoedd addas i'r plant i ddatblygu'n gorfforol trwy wneud defnydd cyson o'r ardal y tu allan. Nid yw'r lleoliad ychwaith yn rhoi cyfleoedd i'r plant dyfu blodau neu blanhigion y tu allan.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r arweinydd yn datblygu ei medrau rheoli yn briodol ac yn sicrhau cyfleoedd da i'r plant. Mae hefyd yn cydweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i osod cyfeiriad strategol ar gyfer y lleoliad ac ymateb, lle bo'n bosibl, i argymhellion yr arolygiad blaenorol. Mae wedi sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau ac yn gweithio'n effeithiol i ddarparu safon dda o ofal ac addysg. Nid yw eto, serch hynny, yn cynnwys y staff yn ddigonol wrth gynllunio ac asesu, ac o ganlyniad nid yw'n rhannu'r arweinyddiaeth yn ddigon effeithiol.

Mae prosesau boddhaol i reoli perfformiad ymarferwyr yn flynyddol. Mae'r hyfforddiant mae'r staff yn ei dderbyn yn seiliedig ar anghenion y cylch ac yn bwrpasol er mwyn gwella'r ddarpariaeth.

Mae aelodau'r pwyllgor wedi neilltuo llawer o'u hegni a'u sylw yn ystod y blynyddoedd diwethaf i geisio sicrhau lleoliad sy'n fwy addas. Maent wedi cydweithio'n llwyddiannus iawn yn ddiweddar gyda'r pwyllgor ehangach o gynghorwyr lleol a phennaeth yr ysgol gynradd leol er mwyn sicrhau lleoliad newydd dros dro a chynllunio ar gyfer un mwy parhaol. Oherwydd y ffocws ar sicrhau lleoliad nid ydynt wedi gallu rhoi digon o gyfeiriad strategol i'r cylch ac maent wedi colli peth golwg ar eu cyfrifoldebau. Mae eu rôl i ddwyn yr arweinydd i gyfrif am safonau a darpariaeth yn cael ei llesteirio gan ddiffyg gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd o ddydd i ddydd.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw dyledus i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac mae ffocws addas ar ddatblygu llythrennedd, rhifedd a medrau iaith Gymraeg y plant.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae cefnogaeth yr awdurdod lleol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer datblygu, wedi cryfhau dealltwriaeth yr arweinydd o'r broses gwella ansawdd.

Mae'r broses hunanarfarnu bresennol yn gymharol newydd ac wedi arwain at greu adroddiad sydd yn ddarlun gweddol gywir o'r lleoliad. Serch hynny, nid yw'r ymarferwyr eraill na'r pwyllgor rheoli yn rhan o'r broses hon. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn adnabod beth mae'r cylch yn ei wneud yn dda ond nid yw wedi adnabod y meysydd i'w datblygu gyda'r un trylwyredd, yn arbennig o ran cynllunio, asesu a rheolaeth. Ar y cyfan, mae cyswllt priodol rhwng deilliannau'r broses hunan arfarnu a thargedau'r cynllun datblygu, yn arbennig o ran safonau plant a gwella'r ddarpariaeth.

Mae ymarferwyr yn derbyn syniadau newydd trwy hyfforddiant, ac yn arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio a awgrymir gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol. Mae'r partneriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles plant ac ar ansawdd y ddarpariaeth.

Mae partneriaethau gyda rhieni yn fuddiol. Mae rhieni newydd yn derbyn pecyn gwybodaeth defnyddiol sy'n hwyluso'r cam o'r cartref i'r cylch drwy roi gwybodaeth angenrheidiol i rieni. Gwneir defnydd o hysbysfwrdd i rannu gwybodaeth o ddydd i ddydd ac mae rhieni yn derbyn llyfryn ar ddiwedd cyfnod yn y cylch yn dangos cynnydd eu plentyn. Mae'r rhieni yn gefnogol iawn i'r cylch ac yn codi arian yn flynyddol er mwyn gwella'r ddarpariaeth.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau effeithiol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae'r partneriaethau hyn wedi cefnogi a herio'r ymarferwyr yn gyson gan ddarparu cyngor a hyfforddiant sydd eisoes wedi cyfrannu at gryfhau'r ddarpariaeth a'r safonau ynghyd â rheoli ymddygiad. Mae'r trefniadau pontio gyda'r ysgol gynradd leol yn effeithiol ac yn sicrhau bod y plant yn sefydlu'n dda yno wrth drosglwyddo. Mae'r cydweithio hyn hefyd yn cefnogi'r cylch yn ei fwriad i gael cartref newydd parhaol i ddiwallu'n llawn anghenion y plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o staff ac adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o staff â chymwysterau addas. Maent yn defnyddio ymarferwyr yn effeithiol gan wneud y defnydd gorau o'u profiad a'u harbenigedd. Mae hyn yn cyfrannu at godi safonau a sicrhau lles y plant.

Mae ymarferwyr yn cael mynediad i ystod effeithiol o hyfforddiant addas. Mae hyn yn sicrhau bod ymarferwyr yn parhau i adeiladu ar eu medrau, er enghraifft, wrth ddatblygu medrau rhifedd y plant.

Mae gan yr arweinwyr brosesau effeithiol ar gyfer cadw gwariant o dan adolygiad. Maent yn dyrannu cyllid yn briodol i fynd i'r afael â blaenoriaethau datblygu'r lleoliad.

O ystyried y canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd gan blant, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid -

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 10 | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 10 | 6 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 11 | 8 | 3 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 11 | 7 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 11 | 7 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 69% | 26% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 11 | 8 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 79% | 18% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 11 | 9 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 82% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 10 | 6 | 4 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 22% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 11 | 8 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 9 | 5 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 56% | 44% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 24% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 11 | 5 | 6 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 45% | 55% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 30% | 5% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 10 | 8<br>80% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 10 | 5<br>50% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 62% | 29% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 10 | 6<br>60% | 4<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 71% | 23% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 3<br>30% | 7<br>70% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 62% | 30% | 4% | 0% | | |
| The setting is well run. | 10 | 8<br>80% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Maldwyn Pryse | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |